

TGAU Cymraeg Iaith Uned 2

Disgrifio, Naratif ac Esbonio

Cerddoriaeth

Darnau Darllen



TGAU

Cymraeg Iaith

UNED 2

Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio

Deunydd Darllen i'w ddefnyddio gydag Adran A

(PAPUR ENGHREIFFTIOL)

Karl Jenkins

Enw llawn	Karl William Pamp Jenkins
Geni	17 Chwefror 1941 Penclawdd, Gŵyr, Cymru
Math o gerddoriaeth	Jazz, roc, clasurol
Bywoliaeth	Cyfansoddwr, cerddor
Offerynnau	Obo, sacsoffon, allweddellau
Hyd gyrfa	1970 hyd y presennol
Enwog am	Adiemus
Gwefan	karljenkins.com





Plant Bach



**Oes gennych chi blant bach?
Hoffech chi weld effaith gadarnhaol cerddoriaeth glasurol ar eich plentyn?
Yna dyma'r union beth i chi!**

Beth yw Plant Bach?

Grŵp o gerddorion sy'n chwarae cerddoriaeth glasurol yw Plant Bach. Mae'r enw yn gyfuniad o'r gynulleidfa - plant ac enw un o'r cyfansoddwyr enwocaf - Johann Sebastian Bach.

Pwy sy'n cael dod i'r cyngherddau?

Plant dan 5 oed a'u rhieni.

Beth sy'n digwydd mewn cyngerdd?

Cynhelir y cyngherddau mewn ystafell gyfforddus a bydd y plant yn eistedd ar glustogau ger y llwyfan yn gwrando ar y cerddorion. Dim ond 20 munud yw hyd y cyngerdd ac mae croeso i'r plant grwydro'r ystafell tra maen nhw'n gwrando.

Beth yw gwerth y cyngherddau?

Mae gwrando ar gerddoriaeth glasurol yn gallu ymlacio plentyn. Mae sawl un yn syrthio i gysgu! Gall y cyngherddau ennyn diddordeb plentyn mewn cerddoriaeth glasurol. Caiff y plant gyfle i chwarae ambell offeryn ar ddiwedd y cyngerdd. Gall hyn agor drysau i fyd newydd cyffrous!

Am fwy o wybodaeth am y cyngherddau a dyddiadau'r cyngherddau nesaf ewch i'n gwefan www.cyngherddauplantbach.cymru

DARN DARLLEN 3

Cyfansoddwyr Cymru

Robat Arwyn



Cafodd Robat Arwyn ei eni yn Nhalysarn ond mae'n byw yn Rhuthun ers 1981. Graddiodd mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd yn 1980 a chafodd Ddiploma mewn Llyfrgellyddiaeth yng Ngholeg Llyfrgellwyr Cymru, Aberystwyth yn 1981. Bellach mae'n Brif Lyfrgellydd Cyngor Sir Ddinbych. Cyfansoddodd y gerddoriaeth i ganeuon megis: 'Gwin Beaujolais', 'Pedair Oed' a 'Brenin y Sêr'. Bu Arwyn hefyd yn flaenllaw iawn gyda'r grŵp gwerin Trisgell yn yr 80au. Yn Ionawr 2008 cafodd ei benodi'n arweinydd Côr Rhuthun. Mae'r cyfansoddwr wedi cyhoeddi tua deg o gasgliadau o ganeuon, gan gynnwys *Atgof o'r Sêr*, *Er Hwyllo'r Haul*, *Er Mwyn Yfory* a *Gwin Beaujolais*. Ymhlith yr enwogion sydd wedi perfformio'i waith mae Rhys Meirion. Mae ganddo ddau o blant.

Gareth Glyn



Cyfansoddwr a darlledwr Cymreig yw Gareth Glyn. Graddiodd mewn Cerddoriaeth o un o golegau gorau Lloegr, Coleg Merton, Rhydychen, gan arbenigo mewn cyfansoddi. Dros ddeng mlynedd ar hugain, mae wedi cyfansoddi'n helaeth ar gyfer sawl cyfrwng, o symffoniau i ganeuon pop, o'r neuadd gyngerdd i'r sgrîn deledu. Mae Bryn Terfel a Charlotte Church ac enwogion eraill wedi perfformio ei waith. Mae Rhys Ifans wedi actio'r brif ran ym mherfformiadau cyntaf dwy ddrama gerdd gan Gareth Glyn. Mae'n byw ym Modffordd, ger Llangefnï. Mae ganddo ddau fab.

Karl Jenkins



Roedd tad Karl Jenkins yn athro yn yr ysgol leol ac yn organydd a meistr y côr ym Mhenclawdd. Ganddo ef y cafodd Karl Jenkins ei hyfforddiant cerddorol cyntaf. Aeth i Ysgol Ramadeg Tre-gŵyr, ac wedyn i Brifysgol Caerdydd i astudio cerddoriaeth. Am y rhan fwyaf o'i yrfa gynnar, roedd yn cael ei adnabod fel cerddor jazz a jazz-roc. Bu'n chwarae llawer o offerynnau gan gynnwys sacsoffon, allweddellau ac obo. Cyfansoddodd gerddoriaeth i nifer o hysbysebion gan gynnwys Levi, British Airways, Renault, Volvo a Pepsi. Erbyn hyn mae'n fwy adnabyddus fel cyfansoddwr clasurol proffesiynol.

Hafan	Eich Gyrfa	Swyddi a Hyfforddiant	Addysg a Chyrsiau	Offer ac Adnoddau	Porth Sgiliau	Cysylltu â ni
--------------	-------------------	------------------------------	--------------------------	--------------------------	----------------------	----------------------

Rydych chi yma: [Hafan](#) > [Offer ac Adnoddau](#) > Gwybodaeth am Swyddi

Therapydd Cerdd

Mae therapyddion cerdd yn defnyddio sain a cherddoriaeth i helpu pobl ag anawsterau corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol. Trwy gyfrwng cerddoriaeth, gall pobl gyfleu eu teimladau a magu hyder.

Y Gwaith

Nid yw therapi cerdd yn ymwneud â dysgu cerddoriaeth neu asesu gallu cerddorol y cleient. Yn lle hynny, y nod yw defnyddio cerddoriaeth yn rhydd i archwilio a mynegi teimladau. Yn gyffredinol, bydd y cleient a'r therapydd yn chwarae, canu a gwrando gyda'i gilydd (yn dibynnu ar allu'r cleient). Mae cleientiaid yn defnyddio offerynnau taro yn bennaf, a'u lleisiau eu hunain os yw hynny'n bosibl. Mae therapyddion cerdd yn gweithio mewn llawer o leoedd yn cynnwys ysbytai, ysgolion arbennig, canolfannau dydd a charchardai.

Rhinweddau personol a sgiliau

I fod yn therapydd cerdd, bydd angen i chi fod:

- yn gerddor da gyda'r gallu i helpu cleientiaid i greu cerddoriaeth
- yn berson cynnes, cyfeillgar a chefnogol
- yn bwylllog ac amyneddgar ac yn dangos empathi
- â sgiliau cyfathrebu cadarn, i allu gweithio gyda chleientiaid a gweithwyr proffesiynol fel meddygon a seicolegwyr
- â sgiliau datrys problemau i asesu cleientiaid a phenderfynu ar y rhaglen therapi
- â sgiliau trefnu i gynllunio pob sesiwn therapi.

Cyflog

Mae therapyddion cerdd yn ennill rhwng £25,472 a £30,460 y flwyddyn, sy'n codi i rhwng £34,189 a £40,157 yn ôl profiad. Gall prif therapyddion cerdd ennill hyd at £46,621 y flwyddyn.

Cymwysterau

I gael lle ar gwrs ôl-raddedig, fel rheol rhaid i chi gael **gradd** mewn cerddoriaeth. Er hynny, mae rhai prifysgolion yn derbyn **graddedigion** mewn pynciau eraill, er enghraifft, addysg, nyrsio neu seicoleg, os ydyn nhw wedi cyrraedd safon uchel mewn perfformio cerddoriaeth.

Ystadegau

- Mae 66% o bobl sy'n gweithio fel therapyddion cerdd yn gweithio'n rhan-amser.
- Mae 13% yn gweithio oriau hyblyg
- Mae 2% yn weithwyr dros dro.



26 Chwefror 2015

Premiere o waith newydd Owain yn dilyn llwyddiant gyda'r Hobbit

Bydd gwaith newydd gan gyfansoddwr talentog a drefnodd y gerddoriaeth ar gyfer rhaglun newydd yr Hobbit yn cael ei berfformio yn un o brif wyliau cerddoriaeth Cymru.

Mae Owain Llwyd, 30, sydd hefyd wedi cyfansoddi ar gyfer yr X-Factor, Top Gear a Big Brother, yn edrych ymlaen yn arw at y premiere fel rhan o Wyl Gerdd Bangor, sy'n dechrau ar Fawrth 4.

Mae "wedi cyffroi'n lân" ynglŷn â'r comisiwn sydd wedi ei ysgrifennu yn arbennig ar gyfer Camerata Gogledd Cymru - ensemble o dros 20 o gerddorion ifanc, o dan arweiniad Patrick Rimes.

Bydd y cyngerdd yn cael ei gynnal yng Nghapel Penrallt, Bangor ar Sadwrn, Mawrth 7, am 7.30pm.

Aeth Owain, sy'n wreiddiol o Lyndyfrdwy, rhwng Llangollen a Chorwen, i Ysgol Dinas Brân yn Llangollen cyn symud i Ysgol y Berwyn yn y Bala ar gyfer y chweched dosbarth. Astudiodd gerddoriaeth ym Mhrifysgol Bangor.

Yn ystod ei dair blynedd fel myfyriwr israddedig enillodd holl wobrau cyfansoddi Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol - yr unig gyfansoddwr i gwblhau'r gamp. Aeth ymlaen i gwblhau ei ddoethuriaeth mewn cyfansoddi ar gyfer ffilm a theledu ym Mangor cyn ei benodi'n ddarlithydd cerddoriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

DARN DARLLEN 6

Dyma ddetholiad o Nofel O Ran, Mererid Hopwood. Mae Ifan Glyn yn gerddor ac yn magu ei blentyn ar ei ben ei hun. Mae'r detholiad wedi ei ysgrifennu o safbwynt y ferch.

Yn bedair blwydd oed mae traed yn rhan fawr o fywyd. Roeddwn i'n adnabod pobl yn ôl eu sgidie. Sgidie Dad a chydnabod Dad. A *desert boots* neu daps Green Flash. Sgidie myfyrwyr miwsig Dad fyddai'r rhain.

Byddai sgidie synhwyrol Myng-gu yn dod o dro i dro, rhai nefi, gyda bwcwl arian bach, bach a thyllau mân yn y lledr ar flaen y droed a sawdl fach bwt yn y cefn. Roedd rhain yn sgleinio. Ond nid cymaint â rhai Anti June. Roedd sgidie Anti June wedi'u gwneud o ryw ddeunydd oedd yn debycach i wydr na lledr. A doedd dim dal pa liw fyddai'r rhain. Roedden nhw'n hardd. Yn uchel ac yn hardd, a phan fyddai hi'n eu diosg i wisgo Scholl's yn eu lle, a dangos ewinedd bysedd ei thraed, a oedd yr un lliw â'r darn lledr ar flaen y sandals, byddwn i, weithiau, heb fod neb yn edrych, yn dwyn y sgidie gwydr i'r ystafell molchi ac yn cloi'r drws. Yna, ar hyd y leino byddwn yn clip clopian. Roeddwn i'n caru sgidie Anti June. Ar y cyfan, roeddwn i'n caru Anti June. Falle nid cymaint â'i sgidie hi.

'Ang hâr ad?'

Tri nodyn. Anti June yn galw. Tynnu'r sgidie'n glou. Mas o'r stafell molchi. Roeddwn i'n gwybod beth fyddai'n digwydd nesaf.

'Bydd Myng-gu ac Anti June yn mynd cyn bo hir. Dere lawr i weud gw-bei.'

A lawr â fi. Yn y gegin, byddai'r seremoni arferol yn digwydd. Myng-gu ac Anti June yn tynnu eu ffedogau, eu plygu a'u rhoi yn nrâr y seld. Byddai Myng-gu yn rhoi sgarff fach rownd ei gwddw ac Anti June yn estyn am ei modrwyon o'r soser ar bwys y tepot. Byddai'r gegin yn disgleirio ac arogl parazon yn llenwi'r lle a Myng-gu wedi bod yn lladd yr hen *germans* o'r sinc a'r tŷ bach.

'Germans, Myng-gu fach, dim *Germans*,' fyddai Anti June yn dweud bob tro.

Doedd dim llawer o bwynt. Ac unrhyw funud byddai Anti June yn chwilio am y sgidie. 'Ma chi, Anti June. Pan fydda i'n fawr, rhai fel hyn fydda i'n gwishgo hefyd.'

'Dere 'ma.'

A dyma'r wasgfa fisol. Arogl polish a pharazon a sent a lipstick Anti June, ac arogl polish a pharazon a phowdwr Myng-gu yn gusanau i gyd ar hyd fy wyneb.

'Nawr, bydd di'n gwd gyrl fach.'

Byddai Anti June yn dweud hyn bob tro. Ac yna, ar y ffordd mas am y drws ffrynt, byddai'n rhoi ei phen rownd drws y stydi.

'Ni off 'te, Ifan. Ffona os ti am rwbeth. Dim ond ishe gweud y gair. Wedi crafu tato - yn y sosban yn barod. Cofia roi halen. Ham yn y ffrij.'

A Myng-gu'n dweud:

'Na ti 'te, Ifan bach. Ma popeth yn sgwâr 'ma 'to am sbelen, a bydd y lodes fach hon yn siŵr o ofalu amdanat ti tan tro nesa... byddwn ni 'nôl wap fach.'

Gyda hyn, byddai Myng-gu yn agor clasp ei hambag ac yn estyn tamed o Sbanish o'r gwaelodion a'i roi i fi yn anrheg i'w gnoi yn lân o ddwst leinin y bag, ac i dduo fy nannedd.

'Myng-gu fach, chi'n sbwylio ni,' fyddai Dad yn dweud wedyn, ac yn codi o'i ddesg, er gwaethaf protestio Myng-gu ac Anti June, y ddwy am y gorau yn ei siarsio i beidio â symud. A'r ddwy, am ryw reswm yn diolch iddo.

Weithiau byddai Dad wedyn yn fy sgubo o'r llawr a'm rhoi ar ei sgwyddau a'm cario mas at y car. Ac yn sydyn, fyddai dim sôn am sgidie, dim ond coed a chymylau a gwynt yn fy nghlustiau a sŵn car yn cychwyn a llaw Myng-gu yn chwifio, chwifio, chwifio drwy'r ffenest nes i Anti June droi ei Hillman Imp bach glas rownd y gornel o'r golwg. A finnau'n teimlo rhyddhad mod i wedi llwyddo i ddal talcen Dad gydag un llaw a chwifio gyda'r llall a heb syrthio'r holl, holl ffordd i lawr i'r pêfment igam-ogam islaw.

Papur Enghreifftiol

TGAU

CYMRAEG IAITH

UNED 2

Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio

(PAPUR ENGHREIFFTIOL)

2 awr

ADRAN A (Darllen): 30 marc

Yn yr adran hon mae 6 darn darllen ar y thema 'Cerddoriaeth'. Darllenwch bob un o'r darnau'n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

Darn Darllen 1

Karl Jenkins

A1. Beth yw ystyr y gair bywoliaeth? [1]

Hyd bywyd

Man geni

Gwaith

Bywyd prysur

Darn Darllen 2

Plant Bach

A2. Enwch **ddwy** o fanteision mynd i un o gyngherddau Plant Bach. [1]

.....

.....

.....

Darn Darllen 3

Cyfansoddwyr Cymru

A3. Rhwch ✓ yn y colofnau cywir i nodi i ba gyfansoddwyr mae'r ffeithiau'n berthnasol. [3]

	Robat Arwyr	Gareth Glyn	Karl Jenkin
Mae'n byw ym Modffordd.			
Mae'n gerddor proffesiynol.			
Roedd ei dad yn arweinydd côr.			
Aeth i brifysgol Caerdydd.			
Mae'n arwain côr Rhuthun.			
Mae ganddo ddau o blant.			

A4. Nodwch **ddau** beth sy'n gyffredin rhwng Gareth Glyn a Robot Arwyn. [1]

.....

.....

Darn Darllen 4

Gyrfa Cymru

A5. Beth yw ystyr y gair rhinweddau? [1]

- Nodweddion drwg
- Cymwysterau
- Gallu
- Nodweddion da

A6. Sut mae cerddoriaeth yn helpu pobl sy'n dioddef o wahanol anawsterau? [1]

.....

.....

A7. Rhwch ✓ yn un o'r colofnau i nodi a yw'r canlynol yn gywir neu'n anghywir. [4]

	Cywir	Anghywir
Ystyr therapi cerdd yw dysgu cerddoriaeth a gweld beth yw gallu cerddorol person.		
Mae therapydd cerdd yn gweithio mewn swyddfa.		
Byddai person diamynedd a byrbwyll yn berffaith ar gyfer y swydd.		
Nid oes rhaid i chi gael gradd mewn cerddoriaeth i fod yn therapydd cerdd.		

A8. Cysylltwch y gair/geiriau â'r diffiniad cywir.

[3]

empathi

math o gyffur

y gallu i gydymdeimlo

cwrs ôl-raddedig

cwrs yn dilyn gradd

cwrs i bobl heb radd

oriau hyblyg

oriau wedi eu gosod gan y cyflogwr

oriau o ddewis y gweithiwr

Darn Darllen 5

Y Cymro

A9. Tanlinellwch y gair yn y darn isod sy'n golygu rhan o ffilm sy'n cael ei dangos cyn i ffilm gael ei chyhoeddi. [1]

Premiere o waith newydd Owain yn dilyn llwyddiant gyda'r Hobbit

Bydd gwaith newydd gan gyfansoddwr talentog a drefnodd y gerddoriaeth ar gyfer rhaglun newydd yr Hobbit yn cael ei berfformio yn un o brif wyliau cerddoriaeth Cymru.

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

A12.

Golygu (5marc)

(i) Nodwch pa air sydd ar goll o'r frawddeg isod. [1]

Ar ôl bod yn sâl am wythnos, roedd Teleri'n falch ei bod yn teimlo'n _____.

salach

gystal

well

wannach

- (ii) Tanlinellwch yr idiom sy'n cyfleu bod Cai yn hapus. [1]

Cafodd Cai ben blwydd gwerth chweil. Dyma'r dathliad gorau erioed! Treuliodd ddiwrnod llawn dop yn gwneud gweithgareddau awyr agored gyda'i ffrindiau. Roedd Cai ar ben ei ddigon er ei fod wedi blino.

- (iii) Dyma frawddegau o wahanol hysbysebion swydd. Nodwch pa frawddeg sy'n cyfleu bod angen gallu siarad Cymraeg yn dda ar gyfer y swydd. [1]

- a. Byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.
- b. Nid oes angen gallu siarad Cymraeg.
- c. Dylech nodi a ydych yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- ch. Rhaid i ymgeiswyr allu siarad Cymraeg yn rhugl.

Brawddeg _____

- (iv) Nodwch pa **ddwy** frawddeg sy'n cyfleu'r un ystyr. [1]

- a. Gwelodd loan y ci bach brown heb berchennog yn y parc ddoe.
- b. Gwelwyd y ci bach brown heb berchennog yn y parc ddoe.
- c. Roedd y ci bach brown heb berchennog yn y parc ddoe.
- ch. Cafodd ci bach brown heb berchennog ei weld yn y parc ddoe.
- d. Gwelodd y perchennog gi bach brown yn y parc ddoe.

Brawddegau _____

- (v) Darllenwch y frawddeg isod yna nodwch trwy roi ✓ yn un o'r blychau a yw Nia wedi cael y swydd. [1]

Er bod Nia wedi cael cyfweiliad da iawn wrth geisio am y swydd, roedd hi'n aflwyddiannus y tro hwn.

Cafodd Nia'r swydd.

Ni chafodd Nia'r swydd.

ADRAN B (Ysgrifennu): (40marc)

Yn yr adran hon byddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau ysgrifennu.

B1. *Yn y dasg hon byddwch yn cael eich asesu ar eich gallu i brawf-ddarllen a chywiro iaith.*

- (i) Darllenwch y darn canlynol. Mae 3 gwall ynddo. Chwiliwch am y 3 gwall a chywirwch nhw ar y testun. [3]

Cyhoeddais y Pennaeth fod mae blynyddoedd 7 i 9 yn cael cinio am 12 o'r gloch a'r gweddill am 12.30. Mae'r newid hwn yn cael ei wneud oherwydd bod gormod o ddisgyblion yn y freutur am hanner dydd.

- (ii) Rhowch ✓ gyferbyn â'r frawddeg sy'n gywir. [1]

Rwyf am ddweud wrth yr athro na alla' i wneud y gwaith cartref heno gan fy mod yn nofio.

Rwyf am ddweud wrth yr athro na allai wneud y gwaith cartref heno gan fy mod yn nofio.

- (iii) Cylchwch y sillafiad cywir: [1]

llwydiannus

llwyddianus

llwyddiannus

llwudiannus

- B2. Dewiswch **un** o'r canlynol i ysgrifennu amdano.
Bydd 20 marc am gynnwys a threfn a 15 marc am ysgrifennu'n gywir.
Dylech ysgrifennu rhwng 350 - 500 o eiriau.

[35]

Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.

Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.

Naill ai

- (a) Rydych chi wedi bod mewn cyngerdd/ sioe gerdd/ gŵyl gerddorol.
Ysgrifennwch flog yn ymateb i'r profiad.

neu

- (b) Ysgrifennwch lythyr cais am swydd o'ch dewis chi. Dylech nodi eich rhinweddau personol a'ch sgiliau.

Cynllun Marcio

TGAU

CYMRAEG IAITH

UNED 2

Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio

Cynllun Marcio

(PAPUR ENGHREIFFTIOL)

2 awr

ADRAN A (Darllen): 30 marc

Yn yr adran hon mae 6 darn darllen ar y thema 'Cerddoriaeth'. Darllenwch bob un o'r darnau'n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

Darn Darllen 1

Karl Jenkins

- A1. Beth yw ystyr y gair bywoliaeth? [1]
(dehongli gwybodaeth ac adnabod geirfa)
Un marc am nodi:

Gwaith



Darn Darllen 2

Plant Bach

- A2. Enwch ddwy o fanteision mynd i un o gyngherddau Plant Bach. [1]
(adalw a dehongli gwybodaeth)
 $\frac{1}{2}$ marc yr un hyd at un marc am nodi:

- gallu ymlacio plentyn
- gallu ennyn didordeb plant mewn cerddoriaeth glasurol
- plant yn cael y cyfle i chwarae offeryn
- gallu agor drysau i fyd newydd cyffrous

Darn Darllen 3

Cyfansoddwyr Cymru

- A3. Rhowch ✓ yn y colofnau cywir i nodi i ba gyfansoddwyr mae'r [3]
ffeithiau'n berthnasol. (dehongli a dadansoddi gwybodaeth)
 $\frac{1}{2}$ marc yr un, hyd at 3 marc, am bob ateb cywir.

	Robat Arwyn	Gareth Glyn	Karl Jenkins
Mae'n byw ym Modffordd.		✓	
Mae'n gerddor proffesiynol.			✓
Roedd ei dad yn arweinydd côr.			✓
Aeth i brifysgol Caerdydd.	✓		✓
Mae'n arwain côr Rhuthun.	✓		
Mae ganddo ddau o blant.	✓	✓	

- A4. Nodwch ddau beth sy'n gyffredin rhwng Gareth Glyn a Robot Arwyn.
(dehongli a dadansoddi gwybodaeth) [1]

½ marc yr un hyd at un marc:

- byw yng ngogledd Cymru
- gradd mewn cerddoriaeth
- mae ganddynt ddau o blant
- enwogion wedi perfformio'u gwaith

Darn Darllen 4

Gyrfa Cymru

Un marc am nodi:

- A5. Beth yw ystyr y gair rhinweddau?
(dehongli gwybodaeth ac adnabod geirfa) [1]

1 marc am yr ateb cywir:

Nodweddion da

- A6. Sut mae cerddoriaeth yn helpu pobl sy'n dioddef o wahanol
anawsterau? (adalw a dehongli gwybodaeth) [1]

½ marc yr un hyd at un marc am nodi:

- helpu i gyfleu eu teimladau
- magu hyder

- A7. Rhowch ✓ yn un o'r colofnau i nodi a yw'r canlynol yn gywir neu'n
anghywir. (cyfuno a dehongli gwybodaeth)
1 marc am bob ateb cywir [4]

	Cywir	Anghywir
Ystyr therapi cerdd yw dysgu cerddoriaeth a gweld beth yw gallu cerddorol person.		✓
Mae therapydd cerdd yn gweithio mewn swyddfa.		✓
Byddai person diamynedd a byrbwyll yn berffaith ar gyfer y swydd.		✓
Nid oes rhaid i chi gael gradd mewn cerddoriaeth i fod yn therapydd cerdd.	✓	

A8. Cysylltwch y gair/geiriau â'r diffiniad cywir. (dehongli ystyr)

[3]

Un marc yr un am:

empathi

y gallu i gydymdeimlo

cwrs ôl-raddedig

cwrs yn dilyn gradd

oriau hyblyg

oriau o ddewis y gweithiwr

Darn Darllen 5

Y Cymro

A9. Tanlinellwch y gair yn y darn isod sy'n golygu rhan o ffilm sy'n cael ei dangos cyn i ffilm gael ei chyhoeddi. (dehongli ystyr)

[1]

Un marc am:

Premiere o waith newydd Owain yn dilyn llwyddiant gyda'r Hobbit

Bydd gwaith newydd gan gyfansoddwr talentog a drefnodd y gerddoriaeth ar gyfer rhaglun newydd yr Hobbit yn cael ei berfformio yn un o brif wyliau cerddoriaeth Cymru.

Darn Darllen 3 a Darn Darllen 5

- A10. Edrychwch ar ddarnau darllen 3 a 5 ac yna llenwch y bylchau yn y brawddegau a ganlyn:
(cyfuno a chasglu gwybodaeth) [3]

Astudiodd _____ o'r cyfansoddwyr mewn prifysgolion yng Nghymru.

Un marc am nodi 3

Enwau'r rhai sydd wedi cyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer y teledu yw

Un marc am nodi Gareth Glyn, Karl Jenkins ac Owain Llwyd

Yr unig un o'r pedwar cyfansoddwr i ennill holl wobrau cyfansoddi dwy brif eisteddfod Cymru yw _____.

Un marc am nodi Owain Llwyd

Darn Darllen 6

O Ran

- A11. Beth rydyn ni'n ei ddysgu am y cymeriadau yn y detholiad hwn o nofel Mererid Hopwood, *O Ran*? Sut mae'r awdur yn cyfleu sut gymeriadau ydyn nhw?
(casglu, aralleirio a dehongli gwybodaeth) [6]

Gall yr ymgeiswyr gyfeirio at:

Angharad

- diniwed- adnabod pawb wrth eu hesgidiau
- awdur yn deall meddwl plentyn ac yn dewis delweddau addas
- gwirioni ar esgidiau
- clip-clopian yn esgidiau Anti June- gwirioni/ cogio bod yn oedolyn
- caru Anti June ond caru ei hesgidiau fwy- hiwmor
- edmygu Anti June- eisiau gwisgo esgidiau tebyg pan fydd yn hŷn

Myng-gu

- esgidiau synhwyrol
- disgrifio'i hesgidiau/ ansoddeiriau
- dilyn trefn- tynnu a chadw ffedog a.y.y.b
- gofalu am Ifan ac Angharad- glanhau/bwyd
- cymysgu 'germs' am 'germans' – hiwmor
- meddwl y byd o Angharad- y wasgfa fisol
- arogl polish arni

- estyn dada i Angharad
- diolch i Ifan- tybed pam?

Anti June

- esgidiau o bob lliw/ ffasiynol
- disgrifio'r esgidiau/ ansoddeiriau
- ailadrodd 'hardd'
- ymarferol- newid ei hesgidiau/ gwisgo esgidiau anaddas ar gyfer gwaith tŷ
- peintio ei hewinedd yr un lliw â'i hesgid
- 'Ang hâr ad?' Tri nodyn...' defnyddio delwedd byd cerddoriaeth
- dilyn trefn
- gofalu am Ifan ac Angharad- glanhau/bwyd
- gwisgo sent, lipstick
- meddwl y byd o Angharad- y wasgfa fisol
- diolch i Ifan- tybed pam?

Ifan Gwyn

- cario Angharad ar ei ysgwyddau- perthynas dda

1-2 marc

Sôn ychydig am y cymeriadau gan ddangos dealltwriaeth o ambell agwedd o'u cymeriad.

3-4 marc

Dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriadau a dechrau gweld yr hyn sydd ymhlyg yn y testun. Gallu cyfeirio at sut mae'r awdur yn cyfleu cymeriad trwy drafod technegau arddull a'u heffaith.

5-6

Dangos dealltwriaeth aeddfed o'r cymeriadau a dadansoddi'n aeddfed yr hyn sydd ymhlyg yn y testun. Trafod arddull a dull yr awdur o gyfleu cymeriad yn hyderus.

A12.

Golygu (5marc)

- (i) Nodwch pa air sydd ar goll o'r frawddeg isod. [1]

Ar ôl bod yn sâl am wythnos, roedd Teleri'n falch ei bod yn teimlo'n _____.

Un marc am nodi:

well

- (ii) Tanlinellwch yr idiom sy'n cyfleu bod Cai yn hapus. [1]
Un marc am danlinellu:

Cafodd Cai ben blwydd gwerth chweil. Dyma'r dathliad gorau
erioed! Treuliodd ddiwrnod llawn dop yn gwneud
gweithgareddau awyr agored gyda'i ffrindiau. Roedd Cai ar
ben ei ddigon er ei fod wedi blino.

- (iii) Dyma frawddegau o wahanol hysbysebion swydd. Nodwch pa frawddeg
sy'n cyfleu bod angen gallu siarad Cymraeg yn dda ar gyfer y swydd. [1]

- a. Byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.
- b. Nid oes angen gallu siarad Cymraeg.
- c. Dylech nodi a ydych yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- ch. Rhaid i ymgeiswyr allu siarad Cymraeg yn rhugl.

Un marc am nodi brawddeg **ch**.

- (iv) Nodwch pa ddwy frawddeg sy'n cyfleu'r un ystyr. [1]

- a. Gwelodd Ioan y ci bach brown heb berchennog yn y parc ddoe.
- b. Gwelwyd y ci bach brown heb berchennog yn y parc ddoe.
- c. Roedd y ci bach brown heb berchennog yn y parc ddoe.
- ch. Cafodd ci bach brown heb berchennog ei weld yn y parc ddoe.
- d. Gwelodd y perchennog gi bach brown yn y parc ddoe.

Un marc am nodi **b** ac **ch**.

- (v) Darllenwch y frawddeg isod yna nodwch trwy roi ✓ yn un o'r blychau a yw Nia
wedi cael y swydd. [1]

Er bod Nia wedi cael cyfweliad da iawn wrth geisio am y swydd, roedd hi'n
afllwyddiannus y tro hwn.

Un marc am ddewis:
Ni chafodd Nia'r swydd.

ADRAN B (Ysgrifennu): (40marc)

Yn yr adran hon byddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau ysgrifennu.

B1. *Yn y dasg hon byddwch yn cael eich asesu ar eich gallu i brawf-ddarllen a chywiro iaith.*

- (i) Darllenwch y darn canlynol. Mae 3 gwall ynddo. Chwiliwch am y 3 gwall a chywirwch nhw ar y testun. [3]
Un marc am bob cywiriad.

Cyhoeddodd y Pennaeth fod blynyddoedd 7 i 9 yn cael cinio am 12 o'r gloch a'r gweddill am 12.30. Mae'r newid hwn yn cael ei wneud oherwydd bod gormod o ddisgyblion yn y ffreutur am hanner dydd.

- (ii) Rhowch ✓ gyferbyn â'r frawddeg sy'n gywir. [1]

Un marc am ddewis:

Rwyf am ddweud wrth yr athro na **alla'** i wneud y gwaith cartref heno gan fy mod yn nofio.

- (iii) Cylchwch y sillafiad cywir: [1]

Un marc am ddewis:

llwyddiannus

[5]

- B2. Dewiswch **un** o'r canlynol i ysgrifennu amdano.
Bydd 20 marc am gynnwys a threfn a 15 marc am ysgrifennu'n gywir.
Dylech ysgrifennu rhwng 350 - 500 o eiriau.

[35]

Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.

Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.

Naill ai

- (a) Rydych chi wedi bod mewn cyngerdd/ sioe gerdd/ gŵyl gerddorol.
Ysgrifennwch flog yn ymateb i'r profiad.

neu

- (c) Ysgrifennwch lythyr cais am swydd o'ch dewis chi. Dylech nodi eich rhinweddau personol a'ch sgiliau.

ADRAN B (Ysgrifennu) (35 marc)

	<i>CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU A DARLLENWYR, STRWYTHUR A THREFN)</i>	<i>YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)</i>
Band 5	<p>17–20 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu aeddfed a threiddgar • Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darlennydd trwy gydol y darn • Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa • Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg • Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu 	<p>13-15 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir • Gafael sicr iawn ar ramadeg • Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol • Defnydd eang o gystrawennau cywir • Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi • Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad • Gafael sicr iawn ar dreigladau • Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
Band 4	<p>13-16 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol • Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darlennydd • Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa • Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg • Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn 	<p>10-12 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir • Gafael sicr ar ramadeg • Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig • Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir • Defnydd cywir o ystod o atalnodi • Sillafu sicr • Gafael sicr ar dreigladau • Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
Band 3	<p>9-12 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan • Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darlennydd • Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa • Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu 	<p>7-9 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir • Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan • Defnyddio amrywiaeth o frawddegau • Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan • Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi

	CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU A DARLLENWYR, STRWYTHUR A THREFN)	YSGRIFENNU’N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)
	<ul style="list-style-type: none"> Gwaith trefnus sy’n rhoi dilyniant a strwythur 	<ul style="list-style-type: none"> Sillafu mwyafrif y geiriau’n gywir Mwyafrif y treigladau yn gywir Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir
Band 2	5-8 marc <ul style="list-style-type: none"> Peth ysgrifennu cydlynol Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darlennydd Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darlennydd Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyfyrddiad diddorol Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau 	4-6 marc <ul style="list-style-type: none"> Defnyddio peth ystod o eirfa Gafael anghyson ar ramadeg Amrywio brawddegau rywfaint Peth gafael ar gystrawen Peth gafael ar ystod o atalnodi Sillafu yn eithaf cywir Treigladau yn eithaf cywir Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir
Band 1	1-4 marc <ul style="list-style-type: none"> Ysgrifennu cydlynol elfennol Ymwybyddiaeth gyfyngedig o’r darlennydd Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau 	1-3 marc <ul style="list-style-type: none"> Ystod gyfyngedig o eirfa Gafael gyfyngedig ar ramadeg Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau Gafael gyfyngedig ar gystrawen Peth ymdrech i atalnodi Sillafu rhai geiriau yn gywir Gafael gyfyngedig ar dreigladau Gafael gyfyngedig (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
	Dim sy’n haeddu ei wobrwyo	

Mewn tasgau esbonio, disgwylir i ymgeiswyr resymu ac egluro ar sail deall a chyfuno syniadau / gwybodaeth sydd wedi eu cywain o’r testunau darllen ac o brofiadau personol.